# Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Local Democracy and Boundary Commission For Wales

# Cod Ymarfer ar Fynediad i Wybodaeth

**5ed Argraffiad (Gorffennaf 2015)**

Dyddiad Cymeradwy: 21/07/2015

Cymeradwyd gan: Aelodau'r Comisiwn

Dyddiad Adolygu: 01/07/18

CYNNWYS


**1 Cod Ymarfer ar Fynediad i Wybodaeth** ... 1
- **1.1 Diben** ... 1
- **1.2 Cwmpas** ... 1
- **1.3 Egwyddorion Ein Hymagwedd at fod yn Agored** ... 1
- **1.4 Statws** ... 2
- **1.5 Adolygu'r Cod hwn** ... 2

**2 Ceisiadau am Wybodaeth** ... 3
- **2.1 Darparu Cyngor a Chymorth** ... 3
- **2.2 Gwneud Cais** ... 3
- **2.3 Pa Gyfraith sy'n Gymwys?** ... 4

**3 Esbonio'r Egwyddorion** ... 5
- **Egwyddor 1: Uchafu bod yn Agored** ... 5
- **Egwyddor 2: Defnyddio Iaith Glir** ... 5
- **Egwyddor 3: Cynnal Cynllun Cyhoeddi** ... 6
- **Egwyddor 4: Cyhoeddi ar y Rhyngrwyd** ... 6
- **Egwyddor 5: Parchu Preifatrwydd, Cyfrinachedd a'r Gyfraith** ... 7
- **Egwyddor 6: Ymatebion Cyflym a Chynhwysfawr** ... 7
- **Egwyddor 7: Hawl i Gwyno** ... 8
- **Egwyddor 8: Darparu Gwybodaeth am yn Rhad ac am Ddim** ... 9

**4 Cysylltiadau** ... 10
- **4.1 Gwneud Ceisiadau** ... 10
- **4.2 Darparu Cyngor neu Gymorth** ... 10
- **4.3 Cynllun Cyhoeddi** ... 10
- **4.4 Cwynion** ... 10
- **4.5 Ein Gwefan** ... 10
- **4.6 Cronfa Ddata Cyfraith Statud** ... 10

**Atodiad A - Rhestr o resymau dros atal gwybodaeth** ... 11
- **Yn deillio o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000** ... 11
- **Yn deillio o'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004** ... 13
- **Yn deillio o Ddeddf Diogelu Data 1998** ... 14

**Atodiad B - Sut byddwn ni'n cymhwyso prawf budd y cyhoedd a'r prawf niwed sylweddol i eithriadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac i eithriadau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004** ... 15

# 1 Cod Ymarfer ar Fynediad i Wybodaeth

## 1.1 Diben

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn amlinellu:

- yr egwyddorion sy'n llywio ein hymagwedd tuag at lywodraeth agored;
- yr egwyddorion y byddwn yn eu dilyn i gyhoeddi gwybodaeth neu drefnu ei bod ar gael o wneud cais amdani; ac
- o dan ba amgylchiadau gallwn ni gadw gwybodaeth yn ei hôl.

Mae hefyd yn dweud wrthych ble i chwilio am gyngor ynglŷn â gwneud cais am wybodaeth ac yn atgyfnerthu:

- ein hymrwymiad i lywodraeth agored; ac
- ein bwriad i fod ar flaen y gad ym maes llywodraeth agored.

## 1.2 Cwmpas

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn pennu'r egwyddorion y byddwn yn eu dilyn i fodloni'n hymrwymiadau a'n rhwymedigaethau o dan:

- Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004; ac
- y codau ymarfer a'r arweiniad perthnasol a gyhoeddir gan adrannau'r llywodraeth a chan y Comisiynydd Gwybodaeth .

Caiff mynediad i ddogfennau ei bennu gan ddarpariaethau'r Cod hwn.

## 1.3 Egwyddorion Ein Hymagwedd at fod yn Agored

Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddorion dilynol. Manylir arnynt yn Rhan 3:

- Egwyddor 1 – Uchafu bod yn Agored
- Egwyddor 2 – Defnyddio iaith glir
- Egwyddor 3 – Cynnal Cynllun Cyhoeddi
- Egwyddor 4 – Cyhoeddi ar y rhyngrwyd
- Egwyddor 5 – Parchu preifatrwydd, cyfrinachedd a'r gyfraith
- Egwyddor 6 – Ymatebion cyflym a chynhwysfawr
- Egwyddor 7 – Hawl i gwyno
- Egwyddor 8 – Darparu gwybodaeth yn rhad ac am ddim

## 1.4 Statws

Nid yw'r Cod hwn yn gwrthwneud unrhyw ddarpariaethau cyfreithiol sy'n ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth neu'n atal hynny.

Mae'r Cod hwn yn gymwys i wybodaeth a gedwir gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Seilir yr ymagwedd at fod yn agored a ddatgenir yn y Cod hwn ar yr un a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru y mae'n ofynnol i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ei dilyn lle bo'n bosibl.

Mae contractau rydym ni'n eu sefydlu â thrydydd partïon yn cynnwys yr un telerau sy'n llywodraethu datgelu gwybodaeth. Ystyrir datgelu gwybodaeth a ddarperir gan drydydd partïon os gofynnir amdani.

## 1.5 Adolygu'r Cod hwn

Byddwn yn adolygu'r Cod hwn o leiaf bob tair blynedd i sicrhau ein bod yn parhau i fodloni gofynion cyfreithiol sy'n llywodraethu mynediad i wybodaeth.

## 2 Ceisiadau am Wybodaeth

### 2.1 Darparu Cyngor a Chymorth

Cyhyd ag y bo'n rhesymol ac yn bosibl, byddwn yn darparu cyngor a chymorth ynglŷn â gwneud cais am wybodaeth. Rhoddir manylion cyswllt yn Rhan 4. Ceir cyngor ar gyflwyno cais ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (www.ico.gov.uk).

Mae gwybodaeth am y mathau gwahanol o wybodaeth rydym yn ei chyhoeddi ar gael ar ein gwefan (www.cffdl.llyw.cymru).

### 2.2 Gwneud Cais

Gallwch wneud cais am wybodaeth:

- yn ysgrifenedig, gan gynnwys drwy'r ffacs, e-bost neu gyfryngau cymdeithasol;
- drwy gysylltu â ni i ofyn am weld gwybodaeth benodol a gyhoeddwyd ac i wneud apwyntiad i'w gweld;
- dros y ffôn neu'n bersonol:
  - os na allwch wneud eich cais yn ysgrifenedig oherwydd anabledd;
  - os ydych yn gwneud cais am wybodaeth amgylcheddol;
  - os yw'n rhesymol i wneud hynny fel arall.

Os nad yw'ch cais yn ysgrifenedig oherwydd bod un o'r amgylchiadau a nodwyd uchod yn gymwys, byddwn yn ysgrifennu atoch i gadarnhau pa wybodaeth y gofynnwyd amdani. Pan fyddwn ni'n gwneud hyn, bydd yn rhaid i chi wirio ein bod wedi deall eich cais yn gywir. Os na, dylech gysylltu â ni i esbonio'r cais ond os na fyddwch chi'n gwneud hyn byddwn yn symud ymlaen yn unol â'n dehongliad ni o'ch cais.

Wrth gyflwyno cais am wybodaeth, rhaid i chi:

- roi enw a chyfeiriad lle gellir anfon ymateb;
- roi digon o fanylion i ni nodi pa wybodaeth sydd ei heisiau arnoch. Os nad yw eich cais yn cynnwys digon o fanylion i ni allu penderfynu pa wybodaeth sydd ei heisiau arnoch, byddwn ni'n ceisio eglurhad gennych chi. Dim ond pan fyddwch chi wedi ymateb i hyn y byddwn ni'n symud ymlaen â'ch cais;

Gallwch ddweud wrthym sut byddai'n well gennych dderbyn yr wybodaeth. Er enghraifft:

- copi o'r wybodaeth;
- drwy archwilio'r wybodaeth; neu,
- grynodeb o'r wybodaeth.

Pryd bynnag y bo’n rhesymol, byddwn yn darparu gwybodaeth ar y ffurf sydd orau gennych. Os na allwn wneud hyn, byddwn yn esbonio pam.

## 2.3 Pa Gyfraith sy’n Gymwys?

Nid oes angen i chi sôn am ba gyfraith sydd yn eich barn chi’n gymwys i’ch cais am wybodaeth. Byddwn yn casglu’r wybodaeth rydych yn chwilio amdani ac yn ei harchwilio i weld pa gyfreithiau sy’n gymwys ac yna yn eu cymhwyso. Efallai y bydd hyn yn golygu ein bod yn cymhwyso mwy nag un gyfraith i’ch cais.

Fe’ch anogir i fod mor fanwl gywir â phosibl yn eich cais; os nad ydych chi’n siŵr beth i’w ddweud yn eich cais, gallwch ofyn i ni am gymorth. Os ydych chi’n dymuno, gallwch gyfyngu ar y wybodaeth rydych chi’n chwilio amdani.

# 3 Esbonio'r Egwyddorion

## Egwyddor 1: Uchafu bod yn Agored

| **Byddwn ni mor agored ag y bo modd** |
|---|

- Byddwn ni mor agored ag y bo modd gan atal gwybodaeth dim ond os yw'n dod o fewn un o'r categorïau eithriedig yn Atodiad A neu oherwydd y byddai ei ddatgelu yn torri unrhyw ddarpariaeth gyfreithiol arall. Mae Atodiad A hefyd yn dangos, ar gyfer pob eithriad, a fyddwn yn cymhwyso prawf budd y cyhoedd neu'r prawf niwed sylweddol neu'r ddau. Mae Atodiad B yn dangos sut y cymhwysir y profion hynny.
- Bydd ein staff yn derbyn arweiniad a hyfforddiant ar uchafu bod yn agored.
- Byddwn ni'n ceisio cyfleoedd i gyhoeddi gwybodaeth yn barhaus, oni bai ei bod yn eithriedig dan y Cod hwn.
- Cyhoeddir cofnodion ein cyfarfodydd (heblaw am rannau sy'n cael eu heithrio yn unol â'r Cod hwn) ar ein gwefan ar www.cffdl.llyw.cymru. Cyhoeddir y cofnodion yn y Gymraeg a'r Saesneg, a byddant ar gael yn fuan ar ôl iddynt gael eu cadarnhau yn ein cyfarfod nesaf (ar yr amod nad ydynt yn datgelu gwybodaeth sydd i'w chyhoeddi mewn adroddiad Adolygu yn y dyfodol).

## Egwyddor 2: Defnyddio Iaith Glir

| **Byddwn yn defnyddio iaith glir, yn unol â'n polisïau dwyieithog a chan ystyried anghenion gwahanol.** |
|---|

- Byddwn yn defnyddio iaith eglur ac un sy'n niwtral o ran y rhywiau wrth ddelio â'r cyhoedd.
- Ein nod fydd cynhyrchu dogfennau cryno, hawdd eu darllen a byddwn ni'n osgoi defnyddio print mân.
- Byddwn ni'n cynhyrchu dogfennau yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg.
- Byddwn ni'n parchu anghenion amrywiol y sectorau gwahanol o'r gymuned.

**Egwyddor 3: Cynnal Cynllun Cyhoeddi**

| **Byddwn yn cynnal Cynllun Cyhoeddi** |
| --- |

- Rydym wedi mabwysiadu Model Cynllun Cyhoeddi Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Cynllun Cyhoeddi'n amlinellu'r wybodaeth rydyn ni'n ymrwymo i sicrhau ei bod ar gael i chi'n hawdd.

- Mae'r Cynllun Cyhoeddi yn datgan ein hymrwymiad i drefnu bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd ac yn nodi:

  - y wybodaeth rydym yn addo ei chyhoeddi fel rhan o'r drefn;
  - sut bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi;
  - a yw'r wybodaeth ar gael am ddim ai peidio.

- Cyhoeddir y Model o'r Cynllun Cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth ar www.ico.gov.uk.
- Gall pobl heb fynediad i'r Rhyngrwyd ddarllen y cynllun yn ein swyddfa yng Nghaerdydd. Mae croeso i bobl alw i'n gweld.
- Byddwn hefyd yn darparu copïau o'r Cynllun pan wneir cais.

**Egwyddor 4: Cyhoeddi ar y Rhyngrwyd**

| **Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth ar y Rhyngrwyd** |
| --- |

- Mae ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth sy'n dod o fewn y categorïau a restrir yn ein Cynllun Cyhoeddi.
- Byddwn yn darparu gwefan ddwyieithog yn unol â'n rhwymedigaethau statudol a'n polisïau ar ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg.
- Byddwn ni'n cyhoeddi cofnodion ein cyfarfodydd ar ein gwefan. Mae hyn yn cynnwys cofnodion ein Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg.
- Bydd ein gwefan yn cydymffurfio â safonau rhyngwladol a chenedlaethol ar gyfer hygyrchedd.
- Bydd ein gwefan yn darparu cyfleusterau chwilio a manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau pellach ynglŷn ag argaeledd gwybodaeth.

## Egwyddor 5: Parchu Preifatrwydd, Cyfrinachedd a’r Gyfraith

| |
|---|
| **Byddwn yn parchu preifatrwydd, dyletswydd cyfrinachedd a’r holl gyfreithiau sy’n llywodraethu rhyddhau gwybodaeth** |

- Cyn i ni ymateb i gais a fydd yn gofyn am ddatgelu gwybodaeth am rywun y bydd datgelu’n debygol o effeithio ar eu buddiannau, fel arfer byddwn yn ymgynghori â nhw i sicrhau bod unrhyw ddatgeliad yn cydymffurfio â’r gyfraith.
- Mae enghreifftiau o ddeddfwriaeth sy’n dod o dan yr egwyddor hon yn cynnwys Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989, Deddf Diogelu Data 1998, Deddf Hawliau Dynol 1998, y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cyfreithiau eraill yn cynnwys y ddeddf ddifenwi a’r ddeddf hyder.

## Egwyddor 6: Ymatebion Cyflym a Chynhwysfawr

| |
|---|
| **Byddwn yn darparu ymatebion cyflym a chynhwysfawr i geisiadau am wybodaeth** |

- Byddwn ni’n anfon gwybodaeth rydych chi’n gwneud cais amdani ac nad yw’n eithriedig atoch yn gyflym ac o fewn terfynau amser cyfreithlon ym mhob achos.
- Efallai y byddwn yn anfon y wybodaeth mewn nifer o rannau i sicrhau eich bod chi’n derbyn cymaint ohoni â phosibl cyn gynted â phosibl.
- Ein targed ar gyfer ymateb i gais am wybodaeth fydd **15 diwrnod gwaith**. Ystyr “diwrnod gwaith” yw unrhyw ddydd heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy’n ŵyl banc. (Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn darparu amserlen statudol gyffredinol o 20 niwrnod gwaith i ymateb i gais am wybodaeth. Mae hefyd yn darparu y gellir estyn hyn i 60 diwrnod gwaith o dan rai amgylchiadau. Fodd bynnag, ble bynnag a phryd bynnag y bo modd, ein nod fydd ymateb o fewn **15 diwrnod gwaith**).
- Os oes angen ein cymorth arnoch i wneud cais, byddwn yn ysgrifennu atoch am gadarnhad ein bod wedi deall eich cais yn iawn ac fel bod gennych chi gofnod o’ch cais. Pan fyddwn yn gwneud hyn, bydd yn rhaid i chi wirio bod ein dealltwriaeth o’ch cais yn gywir. Os na fydd yn gywir, dylech gysylltu â ni i esbonio’r cais ond os na fyddwch yn gwneud hyn, byddwn yn symud ymlaen ar sail ein dehongliad o’ch cais.
- Bydd unrhyw wybodaeth rydym yn ei datgelu yn yr iaith rydym yn cadw’r wybodaeth ynddi.
- Os ydym yn derbyn cais yn Gymraeg neu yn Saesneg, bydd llythyr cyflwyno ein hymateb yn yr un iaith â’r cais.

- Os cawn gais am wybodaeth mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg bydd llythyr cyflwyno ein hymateb, lle bo'n ymarferol, yn yr iaith honno.
- Nid oes rhaid i ni gael gafael ar wybodaeth nad ydym yn ei chadw. Os ydym o'r farn bod awdurdod cyhoeddus arall yn cadw ychydig o'r wybodaeth neu'r wybodaeth i gyd, byddwn yn ymgynghori â nhw a chi ynglŷn â throsglwyddo'ch cais. Byddwn yn trosglwyddo'r cais os ydych yn cytuno, ac os nad ydych yn cytuno, byddwn ni'n rhoi manylion cyswllt yr awdurdod cyhoeddus arall i chi.
- Byddwn ni mor agored a chymwynasgar ag y bo modd bob tro ond byddwn ni, lle bo'n briodol, yn ymdrin â cheisiadau blinderus ac ailadroddus yn unol â'r gyfraith.
- Os byddwn ni'n gwrthod anfon gwybodaeth atoch, byddwn yn anfon llythyr gwrthod gyda esponiad o fewn yr amserlen gyfreithlon ac yn dweud wrthych am ein gweithdrefn gwyno (gweler Egwyddor 7).

**Egwyddor 7: Hawl i Gwyno**

**Byddwn yn darparu hawl i gwyno lle na fydd aelod o'r cyhoedd yn fodlon â'r ymateb a dderbyniwyd**

- Pan fyddwn yn gwrthod darparu gwybodaeth, bydd yr hysbysiad o'r ffaith honno'n cynnwys manylion ein gweithdrefn gwyno ffurfiol, a nodir yn ein Gweithdrefn Gwyno. Gellir gweld y Weithdrefn ar y Rhyngrwyd ar www.cffdl.llyw.cymru. Mae copïau caled a chyngor ar gael gan ein Swyddog Cwynion - ffôn 02920 464819: cyfeiriad e-bost cffdl.cymru@cymru.gsi.gov.uk.

- O dan baragraff 2.3 ein Gweithdrefn Gwyno ac yn unol â'r egwyddorion a gyflwynir yn y Weithdrefn honno, ymchwilir i unrhyw gŵyn na ddarparwyd gwybodaeth a ddylai fod wedi ei darparu. Mae'r Weithdrefn yn esbonio y dylai'r gŵyn, fel arfer, gael ei chyflwyno yn y lle cyntaf i'r unigolyn a ymatebodd i'r cais. Wedi hynny, fe'i hymchwilir yn unol â'r egwyddorion a gyflwynir ym mharagraff 2.4 o Ran 2 o'r Weithdrefn honno.

- Os ydych chi yn anfodlon â'r canlyniad o hyd, ar ôl defnyddio ein gweithdrefnau cwyno, gallwch, o safbwynt cwynion yn ymwneud â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gyfeirio eich cwyn at y Comisiynydd Gwybodaeth. Fel arfer, bydd yn disgwyl eich bod wedi rhoi cais ar ein gweithdrefnau cwyno ni cyn y byddant hwythau'n ymchwilio i'ch cwyn.

**Egwyddor 8: Darparu Gwybodaeth yn Rhad ac am Ddim**

**Byddwn yn darparu gwybodaeth yn rhad ac am ddim lle bo’n bosibl**

- Os gallwn, ein nod yw osgoi codi tâl ac, os na allwn, i gadw’r costau mor isel â phosibl. Byddwn ni’n defnyddio’n disgresiwn wrth benderfynu codi tâl ai peidio, hyd yn oed os oes gennym hawl gyfreithiol i godi tâl.
- Efallai y byddwn ni’n adolygu’r egwyddor hon yng ngoleuni profiad.
- Mae’r ddeddfwriaeth yn caniatáu i ni godi tâl os bydd cost cydymffurfio â chais am wybodaeth yn fwy na swm priodol. O dan Reoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Priodol) 2004 gosodwyd swm o £600 fel ‘swm priodol’ ar gyfer llawer o gyrff cyhoeddus gan gynnwys y Comisiwn.

# 4 Cysylltiadau

## 4.1 Gwneud ceisiadau

Gellir gwneud ceisiadau am wybodaeth, cyhoeddiadau, cyngor neu gymorth yn ysgrifenedig i'n swyddfa yn:

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Tŷ Hastings
Llys Ffitsalan
Caerdydd
CF24 0BL

Gallwch hefyd ffonio: 02920 464819, anfon ffacs: 02920 464823 neu anfon e-bost at: cffdl.cymru@cymru.gsi.gov.uk neu ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

## 4.2 Cael Cyngor neu Gymorth

Os byddwch chi angen cyngor neu gymorth gyda cheisiadau am wybodaeth oddi wrth Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, gallwch gysylltu â'n swyddfa (manylion uchod).

## 4.3 Cynllun Cyhoeddi

Gellir cael ein Cynllun Cyhoeddi, ein Catalog Cyhoeddi a'r Cod hwn o'n swyddfa ac mae ar gael drwy ein gwefan (www.cffdl.llyw.cymru).

## 4.4 Cwynion

Gallwch gael cyngor am ein gweithdrefn gwyno gan y Swyddog Cwynion (manylion cyswllt fel uchod) neu o'r ddogfen Gweithdrefn Gwyno sydd ar gael o'n gwefan.

## 4.5 Ein gwefan

Ein gwefan yw www.cffdl.llyw.cymru

## 4.6 Cronfa Ddata Cyfraith Statud

Gallwch weld testun llawn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 1998 yn: www.legislation.gov.uk

## Atodiad A – Rhestr o'r Eithriadau

Bwriedir y rhestr hon i fod yn gyfeirnod cyflym at yr eithriadau a'r rhesymau eraill a all fod yn sail i atal gwybodaeth a'r profion y byddwn ni'n eu cymhwyso. I gael y testun llawn ar gyfer pob un, dylech gyfeirio at y ddeddfwriaeth (mae copïau diweddaraf pob cyfraith ar wefan Cronfa Ddata Cyfraith Statud ar www.legislation.gov.uk).

O ran eithriadau, pwrpas yr atodiad hwn yw dangos i chi yn brofion byddwn ni'n eu defnyddio wrth benderfynu a fydd eithriad yn gymwys i wybodaeth ai peidio yn unig.

### A1 – Yn deillio o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

| Deddf RhG 2000 Rhan 1 | Adran |
|---|---|
| 1(3) | Nid yw'r disgrifiad o'r wybodaeth yn caniatáu i ni leoli ac adnabod y wybodaeth |
| 9(2) | Ffi heb ei dalu o fewn tri mis |
| 12 | Cost cydymffurfio'n fwy na'r terfyn priodol |
| 13 | Heb dalu'r ffioedd y gofynnwyd a geisiwyd yn gyfreithiol i ddatgelu |
| 14 | Blinderus neu fynych |

### A2 – Yn deillio o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

| Deddf RhG 2000 Rhan II | Eithriad | Diamod neu Amodol | Prawf budd y cyhoedd? | Prawf niwed sylweddol? |
|---|---|---|---|---|
| 21 | Gwybodaeth yn hygyrch i'r ymgeisydd drwy ddulliau eraill | Diamod | Na | No |
| 22 | Bwriedir cyhoeddi'r wybodaeth yn y dyfodol | Amodol | Ie | Ie |
| 23 | Gwybodaeth a gyflenwir gan gyrff sy'n delio â materion diogelwch, neu yn ymwneud â nhw | Diamod | No | No |
| 24 | Diogelwch Gwladol | Amodol | Ie | No |
| 26 | Amddiffyn | Amodol | Ie | No |
| 27 | Cysylltiadau Rhyngwladol | Amodol | Ie | Ie |

| Deddf RhG 2000 Rhan II | Eithriad | Diamod neu Amodol | Prawf budd y cyhoedd? | Prawf niwed sylweddol? |
|---|---|---|---|---|
| 28 | Perthnasoedd o fewn y Deyrnas Unedig | Amodol | Ie | Ie |
| 29 | Yr economi | Amodol | Ie | Ie |
| 30 | Ymchwiliadau ac achosion a gynhelir gan awdurdodau cyhoeddus | Amodol | Ie | Ie |
| 31 | Gorfodi'r gyfraith | Amodol | Ie | Ie |
| 32 | Cofnodion llysoedd, ac ati. | Diamod | Na | Na |
| 33 | Swyddogaethau archwiliad | Amodol | Ie | Ie |
| 34 | Braint seneddol | Diamod | Na | Na |
| 35 | Ffurfioli polisi llywodraeth, ac ati. | Amodol | Ie | Ie |
| 36 | Cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol | Amodol | Ie | Ie |
| 37 | Cyfathrebu â'I Mawrhydi, ac ati, ac anrhydeddau | Amodol | Ie | Ie |
| 38 | Iechyd a Diogelwch | Amodol | Ie | Ie |
| 39 | Gwybodaeth Amgylcheddol | Amodol | Ie | Na |
| 40 (1) | Gwybodaeth bersonol (am yr ymgeisydd) | Diamod | Na | Na |
| 40 (2) | Gwybodaeth bersonol am bobl eraill lle mai'r amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 2(3)(f)(ii) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gymwys | Diamod | Na | Na |
| 40 (2) | Gwybodaeth bersonol am bobl eraill lle nad yr amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 2(3)(f)(ii) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gymwys | Amodol | Ie | Na |
| 41 | Gwybodaeth a ddarparwyd yn gyfrinachol | Diamod | Na | Na |
| 42 | Mantais broffesiynol gyfreithiol | Amodol | Ie | Ie |
| 43 | Buddiannau masnachol | Amodol | Ie | Ie |
| 44 | Gwaharddiadau ar ddatgelu | Diamod | Na | Na |

### A3 – Yn deillio o’r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

| Rheoliad RhGA 2004 | Eithriad | Prawf budd y cyhoedd? | Prawf niwed sylweddol? |
|---|---|---|---|
| 12 (4) (a) | Gwybodaeth nad yw’n cael ei chadw pan ddaw’r cais i law | Ie | Na |
| 12 (4) (b) | Y cais yn amlwg yn afresymol | Ie | Na |
| 12 (4) (c) | Wedi’i lunio mewn modd sy’n rhy gyffredinol | Ie | Na |
| 12 (4) (d) | Mae’r deunydd wrthi’n cael ei gwblhau o hyd, dogfennau heb eu gorffen neu ddata’n anghyflawn | Ie | Ie |
| 12 (4) (e) | Cysylltiadau mewnol | Ie | Ie |

### A4 – Yn deillio o Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

| Rheoliad RhGA 2004 | Eithriad | Prawf budd y cyhoedd? | Prawf niwed sylweddol? |
|---|---|---|---|
| 12 (5) | Pan fyddai datgelu’n effeithio’n andwyol ar - | | |
| 12 (5) (a) | Cysylltiadau rhyngwladol, amddiffyn, diogelwch gwladol neu ddiogelwch y cyhoedd | Ie | Ie |
| 12 (5) (b) | Cwrs cyfiawnder, prawf teg, ymchwiliad troseddol neu ddisgyblaethol | Ie | Ie |
| 12 (5) (c) | Hawliau eiddo deallusol | Ie | Ie |
| 12 (5) (d) | Cyfrinachedd trafodion awdurdod cyhoeddus lle darperir cyfrinachedd o dan y gyfraith | Ie | Ie |
| 12 (5) (e) | Cyfrinachedd gwybodaeth fasnachol neu ddiwydiannol lle darperir cyfrinachedd o dan y gyfraith i amddiffyn buddiannau economaidd dilys | Ie | Ie |

| Rheoliad RhGA 2004 | Eithriad | Prawf budd y cyhoedd? | Prawf niwed sylweddol? |
|---|---|---|---|
| 12 (5) (f) | Buddiannau person a ddarparodd wybodaeth lle:<br>(i) nad oedd y person hwnnw dan ddyletswydd gyfreithiol i gyflenwi'r wybodaeth<br>(ii) na chyflenwodd y person hwnnw'r wybodaeth o dan amgylchiadau lle mae gan awdurdod cyhoeddus hawl i'w datgelu ar wahân i'r rheoliadau hyn<br>(iii) nad yw'r person wedi cydsynio i'w datgelu | Ie | Ie |
| 12 (5) (g) | Amddiffyn yr amgylchedd y mae'r wybodaeth yn cyfeirio ato | Ie | Na |

## A5 – Yn deillio o'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

| Rheoliad RhGA 2004 | |
|---|---|
| 8 (5) | Ffi heb ei dalu o fewn 60 diwrnod gwaith |
| 13 | Data personol trydydd parti. Byddwn yn cymhwyso'r eithriad hwn wrth iddo ymddangos yn y ddeddfwriaeth |

## A6 – Yn deillio o Ddeddf Diogelu Data 1998

Mae Deddf Diogelu Data 1998 a'r gorchmynion a wneir dani yn cyflwyno eithriadau o'r ddyletswydd i ddarparu mynediad i'ch data personol. Byddwn yn eu cymhwyso fel y maent yn ymddangos yn y ddeddfwriaeth.

## Atodiad B – Sut byddwn yn cymhwyso prawf budd y cyhoedd a'r prawf niwed sylweddol i eithriadau

Mae Atodiadau A2, A3 ac A4 yn dangos, fesul eithriad, a yw prawf budd y cyhoedd a'r prawf niwed sylweddol yn cael eu cymhwyso i wybodaeth sy'n dod o dan yr eithriadau yn Rhan II y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a rheoliad 12 y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Mae'r atodiad hwn yn nodi beth mae pob prawf yn ei olygu:

- Os yw Atodiad A2 neu A3 yn dangos bod eithriad yn amodol, ac y byddwn yn cymhwyso prawf budd y cyhoedd a'r prawf niwed sylweddol, dim ond pe bai datgelu'r wybodaeth yn achosi neu'n debygol o achosi niwed sylweddol i'r diben y mae'r eithriad yn ceisio ei amddiffyn y byddwn yn dibynnu ar yr eithriad. Hyd yn oed pe bai datgelu yn achosi neu'n debygol o achosi'r fath niwed sylweddol, ni fyddwn yn dibynnu ar yr eithriad oni bai fod y niwed hwnnw yn gorbwyso budd y cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth;
- Os yw Atodiad A2, A3 neu A4 yn dangos bod eithriad yn amodol, ac y byddwn yn cymhwyso prawf budd y cyhoedd yn unig, mae'n golygu y byddwn ond yn dibynnu ar yr eithriad os yw budd y cyhoedd, mewn cadw'r wybodaeth yn ôl at y diben y mae'r eithriad yn ceisio ei amddiffyn, yn gorbwyso budd y cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth;
- Os bydd Atodiad A2 neu A3 yn dangos bod eithriad yn ddiamod ac na fyddwn yn cymhwyso naill ai'r prawf budd y cyhoedd na'r prawf niwed sylweddol, mae'n golygu y byddwn yn dibynnu ar yr eithriad hwnnw ac yn peidio datgelu'r wybodaeth;
- Byddwn yn dibynnu ar eithriadau 12(5)(a) i 12(5)(f) yn Atodiad A4 dim ond os byddai datgelu'r wybodaeth yn achosi niwed sylweddol i'r diben y mae'r eithriad yn ceisio ei ddiogelu. Hyd yn oed petai datgelu'n achosi niwed sylweddol o'r fath, ni fyddem yn dibynnu ar yr eithriad heblaw bod budd y cyhoedd, wrth osgoi'r niwed hwnnw, yn gorbwyso budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.